CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**15 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Adroddiad ar Recriwtio Aelod (Lleyg) Annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Pwrpas yr Adroddiad:	**Cymeradwyo penodiad Aelod (Lleyg) Annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

Cefndir:
Ar 20fed Hydref 2022 adroddwyd i'r Cyngor bod un o aelodau annibynnol/lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Liam Hull) (Is-gadeirydd) wedi datgan bwriad i ymddiswyddo o'r Pwyllgor. O ganlyniad i hyn, pleidleisiodd y Cyngor i gymeradwyo cychwyn y broses recriwtio ar gyfer 1 aelod annibynnol/lleyg (newydd) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Fel rhan o'r broses recriwtio hon, ffurfiwyd panel dethol a oedd yn cynnwys y canlynol:

1. Cadeirydd y Cyngor, neu Is-gadeirydd (Cynghorydd Ifan Davies)
2. Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Alan Davies)
3. Is-gadeirydd neu aelod annibynnol arall o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Caroline Whitby)
4. Aelod Cynghorydd o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Cynghorydd Elizabeth Evans)
5. Aelod lleyg annibynnol o'r gymuned (Yr Athro John Williams / Cadeirydd)

Y Sefyllfa Bresennol:
Mae'r broses recriwtio aelod lleyg newydd wedi mynd rhagddi. Cyfarfu'r Panel Dethol Rhestr Fer ar 14eg Tachwedd 2022 i ddewis ymgeiswyr i'w cyfweld. Cynhaliwyd cyfweliadau ar 9fed Rhagfyr 2022.

Yr ymgeisydd llwyddiannus oedd: Mr Andrew Blackmore

Bwriedir i benodiad yr ymgeisydd llwyddiannus fod am gyfnod o ddim mwy na dau dymor gweinyddol yn olynol (h.y. un tymor i ddechrau gyda'r opsiwn i ymestyn i ail dymor yn 2027 - Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi yn A.14 y bydd etholiadau cyffredin ar gynghorwyr y prif gynghorau newydd yn digwydd yn 2022 ac ym mhob pumed blwyddyn ar ôl hynny).

Pe byddai'r Cyngor yn dewis penodi'r ymeisydd, byddai'r aelod annibynnol/lleyg newydd yn cael ei benodi tan 4ydd Mai 2027. Mae'n bosibl yr ystyrir ail dymor gweinyddol yn gynnar yn 2027.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** Na **Crynodeb:** *Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi neu strategaeth* **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**
Argymhelliad/Argymhellion:	Bod y Cyngor yn penderfynu penodi Mr Andrew Blackmore yn aelod annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn weithredol o 15fed Rhagfyr 2022 (yn amodol ar eirda boddhaol), am yr hyn sy'n weddill o'r tymor gweinyddol presennol (hyd at 4ydd Mai 2027).
Rheswm dros y penderfyniad:	Gwneud yn siŵr bod y penodiadau priodol yn cael eu cynnal a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad.
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn sicrhau y gall y Cyngor gyflenwi ar yr holl Flaenoriaethau Corfforaethol.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Cydymffurfiaeth lawn â gofynion.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Cydymffurfiaeth â deddfwriaeth/rheoliadau.
Goblygiadau Staffio:	Amherthnasol
Goblygiadau Eiddo/Asedau:	Amherthnasol
Risg/Risgiau:	Dim
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 1972: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1972/70/contents Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/4/contents 'Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)'

Papurau Cefndir:	https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/contents Adroddiad i'r Cyngor 20/10/2022: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s3870/Adroddiad%20-%20apwyntio%20aelod%20lleyg.pdf?LLL=1
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Swyddog Adrodd:	Elin Prysor
Dyddiad:	9/12/22